**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 4 Medi 2015**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Will Haresign, Bethan Jones, Gwynn Angell Jones, Graham Probert, Richard Rogers, Richard Tudor, Wyn Williams a John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Gary Haggaty (Llywodraeth Cymru)

**Tîm Gweithredol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Prys Morgan (Pennaeth Gweithrediadau)

Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)
Laura Pickup (Rheolwraig Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad llafar am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Gorffennaf 2015*

Fel aelod o'r panel, bu'r Cadeirydd yn holi'r ymgeiswyr ar gyfer Ysgoloriaethau HCC, 2015 (Gweler Eitem 6a).

Bu'r Cadeirydd yn cadeirio cyfarfod o Bwyllgor Monitro Cynllun Gweithredu Cig Coch HCC a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2015 (Gweler Eitem 8.

Cynhaliwyd lansiad ffurfiol y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru 2015-2020 yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd, ar 14 Gorffennaf 2015 pan oedd y Dirprwy Weinidog, Aelodau'r Cynulliad \ rhanddeiliaid allweddol o'r diwydiant yn bresennol. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau o'r Bwrdd a oedd hefyd yn bresennol.

*Sioe Frenhinol Cymru 2015*

Bu'r Cadeirydd yn cynrychioli HCC mewn nifer o dderbyniadau a chyfarfodydd yn ystod y Sioe (Gweler Eitem 5).

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan David Lloyd-Thomas (Llywodraeth Cymru).

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Rheoli Credyd - John Brereton a Wyn Williams.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Llun 6 Gorffennaf 2015 (HCC 644)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Gorffennaf 2015 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Llenwi swyddi Cyfarwyddwyr Anweithredol HCC*

Nid oedd diweddariad i'w roi. Ni chafwyd cadarnhad eto gan Lywodraeth Cymru ynghylch penodiad y Cyfarwyddwyr Anweithredol i Fwrdd HCC am dymor arall.

Nodwyd y byddai Gary Haggaty yn dilyn y mater hwn.

*Rheolaeth Carcasau Wrthrychol ar gyfer Cig Eidion a Chig Oen*

Roedd yr adroddiad a gomisiynwyd ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb i ganfod systemau masnachol i fesur cynnyrch cig o garcasau cig oen mewn amgylchedd DG yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan y Swyddogion Gweithredol. Byddai'r adroddiad ac argymhellion yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf yr Is-grŵp Gwerthuso Carcasau Cig Oen ar 28 Medi 2015.

*Polisi HCC ar gyfer Brandiau Cig Oen Cymru PGI / Cig Eidion Cymru PGI*

Cafodd y polisi ei rannu ag Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru a'i gydnabod ganddi.

*Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Fwyd*

Gwahoddwyd Keith Smyton, Pennaeth yr Is-adran Fwyd, Llywodraeth Cymru, i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol. Ni chafwyd ateb mor belled.

*Sioe Frenhinol Cymru 2015*

Rhoddwyd cyfle i'r Bwrdd roi adborth ar bresenoldeb HCC yn y Sioe.

Roedd y Bwrdd o’r farn y bu presenoldeb HCC yn llwyddiannus a chanmolodd y staff am eu hymdrechion. Cafwyd canmoliaeth o ddyluniad y ddau stondin a’r elfennau newydd o weithgaredd rhyngweithiol ar y stondin Datblygu’r Diwydiant.

Roedd derbyniad brecwast HCC yn boblogaidd iawn, gyda hyd at 150 o gynrychiolwyr o'r gadwyn gyflenwi – gan gynnwys ffermwyr, proseswyr, mân-werthwyr, swyddogion y Llywodraeth a sefydliadau’r diwydiant – yn bresennol. Bu Philip Hogan, Comisiynydd Amaethyddiaeth yr UE, a’r Dirprwy Weinidog yn annerch.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 645)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

*Ysgoloriaeth Da Byw HCC 2015*

Roedd safon y ceisiadau ar gyfer Ysgoloriaeth Da Byw HCC 2015 yn eithriadol o uchel a dyfarnwyd dwy ysgoloriaeth. Cyhoeddwyd enwau’r enillwyr, sef Alan Gardner o’r Wyddgrug a Huw Williams o Dalyllychau, yn ystod Sioe Frenhinol Cymru.

Nodwyd y byddai Alan Gardner yn teithio i Seland Newydd i astudio dangosyddion perfformiad i wella effeithlonrwydd busnesau, ac y byddai Huw Williams yn ymweld ag Awstralia a Seland Newydd i ymchwilio i fugeilio DNA ac olrheinedd EID wrth ddewis anifeiliaid amnewid ar gyfer magu mewn systemau llai dwys.

*Cyllido gan y Cynllun Datblygu Gwledig – prosiect Cael Gwared ar Rwystrau rhag Cofnodi Electronig*

Crynhowyd yr uchod gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol:-

Amcan y prosiect oedd darparu cyllid a chymell 1,500 o ffermwyr defaid i gofnodi eu diadelloedd defaid yn electronig. Cofrestrodd 1,940 o fusnesau a chwblhawyd y prosiect gan 1,700. Trwy ailddyrannu’r cyllid, bu modd i’r holl fusnesau a oedd wedi cofrestru eu diddordeb trwy wefan prosiect www.ewemanage-IT.org.uk i gymryd rhan.

Yn ogystal â’r 10 achos astudiaeth a gyhoeddwyd yn ystod mis Gorffennaf 2015, cafodd dau lyfryn yn seiliedig ar y prosiect eu cyhoeddi, sef “Cyflwyno Cofnodi EID – Canllaw ymarferol i ddechrau cofnodi EID ar gyfer eich diadell” a “Gwneud yr eithaf o gofnodi EID - Ffyrdd ymarferol o wneud y mwyaf o fanteision o gofnodi EID yn eich diadell.”

Cafodd data o'r arolygon a wnaed gan gyfranogwyr y prosiect eu dadansoddi a pharatowyd adroddiad i'w gyhoeddi ar y canfyddiadau. Ar hyn o bryd roedd y prosiect yn cael ei werthuso a cheid adroddiad maes o law.

*Rhaglen Llywodraeth Cymru: Cymunedau Gwledig – Datblygu Gwledig 2014 – 2020)*

Nodwyd bod rowndiau cychwynnol Mynegi Diddordeb ar gyfer cynlluniau ar waith. Roedd HCC ar hyn o bryd yn gweithio ar gais ar ran y diwydiant cig coch yng Nghymru. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau oedd 14 Hydref 2015.

b. *I gael diwedariad llafar ar y farchnad ŵyn ar hyn o bryd a gweithgareddau marchnata HCC*

Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Prif Weithredwr:-

Roedd busnesau ffermio a'r diwydiant defaid yn enwedig wedi bod drwy amser anodd iawn yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd sawl ffactor allanol a oedd wedi cael effaith andwyol ar brisiau ŵyn, Roedd y bunt gref ac Ewro wan wedi golygu fod yr holl gynnyrch o Brydain – gan gynnwys Cig Oen Cymru – yn ddrutach i'w prynu yn ardal yr ewro. Oherwydd hyn, roedd y fasnach allforio cig defaid wedi dirywio o'r naill flwyddyn i'r llall. Hefyd, roedd y bunt gref wedi gwneud cig oen Seland Newydd yn rhatach o lawer, Roedd hyn wedi bod yn ergyd ychwanegol i ddiwydiant cig oen Prydain, gan beri gorgyflenwad o gig oen i'r mân-werthwyr a gostyngiad ym mhrisiau ŵyn i ffermwyr.

Roedd penderfyniad y Bwrdd i ddefnyddio arian o gronfa wrth-gefn HCC yn ystod yr argyfwng wedi galluogi HCC i gymryd camau brys.

O ran mwy o weithgarwch, dywedodd y Rheolwraig Datblygu'r Farchnad fod HCC, yn ogystal â chynnal yr Ymgyrch Cig Oen Cymru PGI yn 2015, wedi cyflwyno amrediad eang o ymgyrchoedd marchnata yn y cyfryngau a siopau i gynorthwyo ffermwyr a phroseswyr yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Cynlluniwyd nifer o weithgareddau hyrwyddol gan HCC i gyd-redeg ag Wythnos Cig Oen Prydain (1-7 Medi 2015), gan gynnwys taith bwrdd hysbysebu symudol a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i sôn am ragoriaethau Cig Oen Cymru PGI. Anfonwyd detholiad o ryseitiau o wefan eatwelshlamb.com i'w defnyddio yn ystod Wythnos Cig Oen Prydain.

Dros 14 diwrnod, byddai'r bwrdd hysbysebu yn mynd i 77 o leoliadau ar draws Cymru a Lloegr, gan gynnwys sawl lleoliad siopa, a byddai hyn yn cyd-fynd â hysbyseb deledu newydd ar gyfer Cig Oen Cymru PGI a sioe deithiol mân-werthwyr Cig Oen Cymru PGI a fyddai'n hyrwyddo'r cynnyrch

i siopwyr. Byddai'r trelar yn teithio i bob rhan o Gymru ac i leoliadau allweddol yn Lloegr.

Roedd ymgyrch hysbysebion teledu HCC yn cynnwys hysbyseb hanner-munud newydd sbon ar gyfer Cig Oen Cymru PGI a ddarlledwyd ar draws 26 o sianeli, gan gynnwys S4C, Sky News, Channel 5 a More4 dros gyfnod o chwe wythnos.

Roedd y gweithgareddau hyrwyddol eraill gan HCC yn cynnwys bod yn bresennol mewn gwyliau haf megis Gŵyl Rhif 6 ym Mhortmeirion a Gŵyl V. O ran anelu at y mân-werthwyr, ceid posteri mawr, hysbysebu ar-lein ac yn y cyfryngau cymdeithasol wedi'i dargedu at ddefnyddwyr, ac ymgyrch bosteri mewn 150 o leoliadau ger archfarchnadoedd mawr mewn trefi a dinasoedd ar draws Prydain.

Hefyd, gofynnwyd i aelodau Clwb Cigyddion HCC ddangos eu cefnogaeth i'r ymgyrch. Cawsant bosteri 'Chwiliwch am y Logos' a sticeri Cig Oen Cymru PGI i'w harddangos yn ffenestri eu siopau, a chawsant eu hannog i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at unrhyw hyrwyddiadau Cig Oen Cymru PGI a gynlluniwyd ganddynt ar gyfer Wythnos Cig Oen Prydain, trwy ddefnyddio'r hashnodau #BritishLambWeek a #LoveWelshLamb.

Roedd cyfarfodydd i ffermwyr yn cael eu trefnu trwy'r undebau amaethyddol. Roedd dirprwyaeth o ffermwyr o rannau gwahanol o Gymru (Cadeiryddion Pwyllgorau Sefydlog a Changhennau Sirol Undeb Amaethwyr Cymru) i fod i fynychu cyfarfod yn HCC ar 8 Medi 2015.

Cytunodd y Bwrdd ei bod yn hollbwysig fod ffermwyr yn deall swyddogaeth HCC ac yn cydweithio â'r sefydliad er mwyn cael dyfodol cynaliadwy i ddiwydiant cig coch Cymru. Byddai HCC yn llunio rhaglen gyfathrebu fel bod ffermwyr yn cael gwell syniad o'r gwaith eang a manwl yr oedd HCC yn ei wneud o ran marchnata a datblygu'r diwydiant ledled Cymru a thu hwnt.

c. *Bwletin y Farchnad (HCC 646)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

d. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Mehefin 2015 (HCC 647)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol, heb unrhyw faterion penodol i'w tanlinellu.

e. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 648)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

f. *<u>I gael briff ar Gynhadledd Flynyddol HCC Ddydd Iau 12 Tachwedd 2015</u>*

Bu'r Pennaeth Gweithrediadau yn briffio'r Bwrdd ynghylch yr uchod:-

Byddai cynio cyn y gynhadledd i'r siaradwyr, aelodau'r Bwrdd a'r Swyddogion Gweithredol yn cael ei gynnal nos Fercher 11 Tachwedd 2015 yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod, a chynhelid y gynhadledd yn yr un lleoliad y diwrnod canlynol.

Y siaradwyr, yn amodol ar gadarnhad, fyddai'r Dirprwy Weinidog; Ed Garner Cyfarwyddwr Cyfathrebu Kantar Worldpanel, arweinydd byd-eang ym maes dadansoddiadau mewn perthynas â defnyddwyr; Richard Brown o Gira, arbenigwyr ymchwil marchnata yn y gwasanaeth bwyd Ewropeaidd; Patricia Czerniak, asiant HCC yn yr Almaen; a Prys Morgan, Rheolwr Gweithrediadau HCC.

Roedd trefniadau'n cael eu cwblhau a rhoddid diweddariad i'r Bwrdd ynghylch y rhaglen lawn ar gyfer y gynhadledd yn y cyfarfod nesaf.

7. **<u>Y Pwyllgor Cynghori Y&D</u>**

*<u>I dderbyn adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ddydd Mercher 2 Medi 2015</u>*

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar am y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

8. **<u>Pwyllgor Monitro'r Cynllun Gweithredu Cig Coch</u>**

a. *<u>I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Monitro Strategaeth Cig Coch a gynhaliwyd ddydd Llun 6 Gorffennaf 2015 (HCC 649)</u>*

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Llun 6 Gorffennaf 2015:-

Rhannwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2014-2015 â'r Pwyllgor. Roedd yn nodi cyflawniadau mewn cymhariaeth â'r gweithrediadau rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015. Roedd yr adroddiad hefyd yn adolygu effaith cyffredinol y Cynllun Gweithredu ar ddiwydiant cig coch Cymru trwy dynnu sylw at y canlyniadau allweddol i ddiwydiant cig coch Cymru rhwng 2009 a 2015.

Bu'r Pwyllgor yn trafod nifer o faterion mewn perthynas â'r gweithgareddau yn 2014 / 2015, gan gynnwys datblygu cynnyrch, a chafwyd trafodaeth ynghylch mesur llwyddiant.

Hon fyddai'r flwyddyn olaf o fonitro i'r Cynllun Gweithredu Strategol hwn, oherwydd o fis Ebrill 2015 byddai darpariaeth a chanlyniadau yn cael eu mesur yn ôl targedau'r Cynllun Gweithredu Strategol newydd (Gweledigaeth 2020).

Cytunodd y Pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad ac y dylid ei gyflwyno i'r Bwrdd er mwyn ei gymeradwyo.

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Monitro Cig Coch a gynhaliwyd ddydd Llun 6 Gorffennaf 2015 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

b. *I dderbyn a chymeradwyo Adroddiad Cynllun Gweithredu Monitro Blynyddol 2014 / 2015 (HCC 650)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Yn dilyn trafodaeth, cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Câi'r adroddiad ei anfon at y Dirprwy Weinidog i'w gymeradwyo cyn cael ei gyhoeddi.

9. **I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Nid oedd diweddariad i'w roi.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar lunio'r papur briffio sy'n amlinellu'r egwyddor o ailddosbarthu Ardoll, a fyddai'n cael ei rannu â'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a QMS ac yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Ardoll Cig Coch a drefnwyd ar gyfer 22 Medi 2015.

10. **I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid**

Roedd y tîm ymgysylltu technegol yn dal i gysylltu â phob un o'r marchnadoedd da byw, lladd-dai a chanolfannau casglu yng Nghymru Roedd nifer o fusnesau wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r cyfnod rhagbrofol ac eisoes trefnwyd bod data yn cael ei drosglwyddo ganddynt i EIDCymru. Roedd y newidiadau terfynol i'r rhyngwyneb gwe a chyfieithiad ohono i'r Gymraeg ar waith fel bod yna ymgysylltu ehangach â busnesau.

Roedd uwch-bersonél ar gyfer y gwasanaeth desg-gymorth yn ei swyddi ac roeddent wrthi'n pennu'r protocolau a gweithdrefnau ar yfer y ganolfan ac yn datblygu canllawiau i ddefnyddwyr a chynnwys y wefan Byddai ail don o recriwtio yn digwydd yn ystod mis Medi 2015, ar gyfer y gweddill o'r staff cymorth a fyddai'n ymuno a'r tîm ym mis Rhagfyr 2015. Byddai gwasanaeth cymorth

EIDCymru yn symud i swyddfeydd wrth ymyl ym Mharc Merlin yn ystod yr hydref hwyr.

11. **Unrhyw fater arall**

*Hollti Carcasau Cig Oen ar gyfer mamogiaid dau ddant*

Cytunwyd y dylid rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar yr ymgynghoriad ynghylch torri dannedd blaen mewn hesbinod yn y cyfarfod nesaf.

12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Gwener 6 Tachwedd 2015.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**